| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Ebrill 10fed 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Y Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Amlinelliad o Archwiliad Ariannol Blynyddol** |

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

Teitl yr adroddiad ydi 'Amlinelliad o Archwiliad Ariannol Blynyddol' ac fe'i paratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Mae'r adroddiad yn mynegi materion fel swyddogaethau a chyfrifoldebau, dull gweithredu archwilio, adrodd, y ffi archwilio, elfennau allweddol ymgysylltu archwilio a'r tîm archwilio ariannol.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

Mae'n ofynnol i'r archwilwyr allanol baratoi a chyflwyno'r adroddiad yma er mwyn cyflawni eu gofynion o ran safonau archwilio ar arferion archwilio priodol. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cymeradwyir bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad. Bydd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru'n bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau ynglŷn â'r adroddiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn darparu'r Cyngor ag amlinelliad o'r gwaith archwilio ariannol sy'n ofynnol ar gyfer datganiadau ariannol 2012-13 a'r ffioedd am ymgymryd â'r gwaith. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ar ddull gweithredu archwilio yn cynnwys risgiau archwilio allweddol sydd wedi eu nodi yn ystod y broses gynllunio gychwynnol a'r camau a gynigir i ddelio â nhw. Fe ddefnyddir y gwaith archwilio ariannol ar y meysydd yma o risg i hysbysu'r farn archwilio ar y datganiadau ariannol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r gwasanaeth archwilio'n ddarpariaeth statudol. Mae'n ofynnol i'r Archwiliwr Penodedig, dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 archwilio ac ardystio datganiadau ariannol y Cyngor. Mae'n ofynnol hefyd i'r Archwiliwr Penodedig ei fodloni ei hun fod y cyngor wedi gwneud trefniadau

priodol i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

## 6. Beth fydd hyn yn ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r ffioedd am y gwaith a wnaethpwyd gan SAC o ran yr archwilio ariannol wedi eu mynegi ar dudalen 9.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gafwyd?

Mae cynnwys yr adroddiad wedi ei drafod â'r Pennaeth Cyllid ac Asedau ac uwch aelodau'r Adran Gyllid.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae hyn yn ddarpariaeth statudol. Mae'r ffioedd archwilio wedi eu rhewi ac maen nhw'n ymrwymiad cyllideb sy'n bod yn barod i'r awdurdod.

## 9. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb rheolaeth i ddelio â'r risg neu'r effaith neu eu hisafu.